Roedd yn anrhydedd ac yn bleser bod yn rhan o ddirprwyaeth seneddol y Cynulliad Cenedlaethol i Israel a'r Banc Gorllewinol ym mis Chwefror. Yn ystod ein pedwar diwrnod a hanner, gwnaethom gyfarfod ag ystod eang o bobl wybodus a oedd yn bryderus am ddyfodol heddwch yn y rhanbarth.

Fleur Hassan-Nahoum yw dirprwy faer newydd-benodedig Jerwsalem. Cafodd ei geni yn Llundain a’i magu yn Gibraltar, a symudodd i Israel yn 2001. Ers ei phenodi ym mis Tachwedd 2018, dywedodd Fleur wrthym ei bod wedi blaenoriaethu gwella ysgolion a gwasanaethau eraill yn Nwyrain Jerwsalem.

Mae bron 40 y cant o drigolion Jerwsalem yn Arabiaid. Ni phleidleisiodd y rhan fwyaf ohonynt yn yr etholiadau lleol y llynedd achos byddai gwneud hynny yn cydnabod hawl Israel i gyfeddiannu Dwyrain Jerwsalem a'i wahanu o weddill y Banc Gorllewinol a Gaza. Dim syndod felly bod gwasanaethau yn Nwyrain Jerwsalem ar gyfer y boblogaeth Arabaidd gan fwyaf yn dlotach yn hanesyddol na rhannau eraill o Jerwsalem.

Fel Iddew uniongred, roedd brwdfrydedd Fleur dros unioni'r camweddau hynny yn teimlo’n anarferol. Mae'n gweld bod Jerwsalem fwy cydlynol yn arwain at Israel fwy cydlynol. Dywedodd Fleur wrthym ei bod yn gweithio'n agos gyda Phalestiniaid fel Ali Abu Awad sydd wedi dyrchafu gwrthsafiad heddychlon yn gelfyddyd.

Roedd Israel yn paratoi am yr etholiad cyffredinol ar 9 Ebrill. Roedd pob un o’r 120 aelod newydd o'r Knesset yn sefyll i gael eu hethol yn ôl system rhestr cynrychiolaeth gyfrannol. Mae unrhyw grŵp gyda mwy na 3.25 y cant o'r etholwyr yn sicr o gael ychydig o seddi. Anaml y bydd y system hon yn arwain at lywodraethau mwyafrif, ac mae’n arwain at wneud cytundebau cyson o fewn grwpiau’r pleidiau gwahanol a rhyngddynt.

Nid oes gan yr un o aelodau’r Knesset (MK) gyswllt ag etholaeth unigol. Eglurodd y cyn-MK Llafur Michal Biran fod holl aelodau’r Knesset, ac felly dim un ohonynt, yn cael eu dwyn i gyfrif am yr anghydraddoldebau cynyddol yn y meysydd sydd angen y sylw mwyaf.

Ymddengys fod annibyniaeth y farnwriaeth yn etifeddiaeth gadarnhaol o’r cyfnod dan reolaeth Brydeinig rhwng y rhyfeloedd byd. Ar y diwrnod y gadawsom Israel, cafodd y Prif Weinidog presennol, Benjamin Netanyahuh, dditiad gan y Twrnai Cyffredinol, Avichai Mendelblit, ar dri chyfrif o lygredd.

Mewn sawl ffordd, mae Goruchaf Lys Israel yn teimlo’n llawer mwy modern na’n un ni. Mae'r adeilad yn teimlo’n dryloyw ym mhob ffordd. Gall unrhyw un gerdded i mewn i wrando ar achos. Roedd y ddau wrandawiad llys y gwnaethom eu harsylwi dan ofal barnwyr benywaidd.

Nid felly y bu erioed. Eglurodd cyn-Brif Ustus Israel Asher Grunis mai dim ond un aelod benywaidd o Oruchaf Lys Israel oedd pan ddaeth yn aelod yn gyntaf. Erbyn hyn, mae saith o 15 aelod y Goruchaf Lys yn fenywod diolch i'r ymdrechion a wnaed i hyrwyddo menywod yn y llysoedd is. Dywedodd y Barnwr Grunis mai dim ond un aelod Arabaidd sydd a bod angen mynd ati i newid hynny.

Bydd Deddf Cenedligrwydd dadleuol y llynedd, sydd â photensial i roi llai o hawliau i 20 y cant o'r boblogaeth sy’n cyfrif eu hunain yn Arabiaid na dinasyddion Israelaidd Iddewig, a diddymu Arabeg fel iaith swyddogol Israel ochr yn ochr â Hebraeg, yn creu problemau o’r newydd i'r Goruchaf Lys farnu arnynt.

Mynegodd llawer o'r Israeliaid deallus, gwybodus y gwnaethom eu cyfarfod bryder am y Ddeddf Cenedligrwydd ddi-fudd, yn ogystal â'r anghydraddoldebau cynyddol rhwng gwahanol gymunedau. Mae cryn wahaniaeth rhwng safonau byw Ewropeaidd y mwyafrif a safonau byw a chyrhaeddiad addysgol is y rhan fwyaf o Arabiaid ac Iddewon Uniongred iawn.

Mae'r gwahaniaeth hwnnw'n dod yn fwyfwy amlwg wrth gymharu safonau byw Israeliaid â phobl Gaza a rhannau o ardaloedd dan reolaeth Palesteina yn y Banc Gorllewinol.

Nid oedd gennym amser i fynd i Gaza ond nid yw’r adroddiadau yn y wasg Israelaidd yn galonogol. Wedi'i hysbrydoli gan benderfyniad Donald Trump i dynnu arian yr Unol Daleithiau yn ôl o bob prosiect Palestinaidd, roedd Llywodraeth Israel yn y cyfnod cyn yr etholiad cyffredinol yn atal y trethi mae'n eu casglu ar ran Awdurdod Palestina. Golyga hyn na all gweinyddiaeth Palesteina dalu ei gweision sifil, heb sôn am ddarparu'r gwasanaethau cyhoeddus yr ydym i gyd yn eu cymryd yn ganiataol: casglu sbwriel, dŵr glân, addysg, iechyd.

Ar lefel gofal eilaidd a thrydyddol, mae Palestiniaid yn dibynnu ar wasanaethau iechyd yn Israel. Gwnaethom ymweld ag Ysbyty Wolfson yn Tel Aviv, lle mae elusen Save a Child's Heart yn ariannu llawdriniaeth ar y galon i blant o rannau tlawd o'r byd sydd heb y gofal pediatrig arbenigol hwn. Ar ddiwrnod ein hymweliad, roedd tri o'r pum gwely gofal dwys wedi cael eu meddiannu gan fabanod o Gaza. Mae un o bob 1,000 o fabanod y byd yn cael eu geni â nam ar y galon ac mae elusen Save a Child's Heart yn dod â phlant o ardaloedd llai datblygedig y byd i gael llawdriniaeth ar y galon sy'n achub bywydau, ac yn hyfforddi cardiolegwyr pediatrig i'w galluogi i sefydlu llawdriniaeth ar y galon bediatrig mewn gwledydd fel Ethiopia, Tanzania yn ogystal â Phalesteina.

Gwnaethom gyfarfod ag Abdullah Abdullah yn Ramallah ar y Banc Gorllewinol. Mae Dr Abdullah wedi bod yn llefarydd ar ran Fatah a PLO ers cryn amser gyda bron i 50 mlynedd o brofiad o lanw a thrai ymdrechion rhyngwladol i sicrhau heddwch rhwng Israeliaid a Phalestiniaid. (llun)

Gwnaethom ofyn i Dr Abdullah pam na fu unrhyw etholiadau yn Gaza a'r Banc Gorllewinol ers 10 mlynedd. Dywedodd nad oedd Israel yn caniatáu hynny, a oedd yn golygu yn y bôn nad oedd Israel yn caniatáu i drigolion Dwyrain Jerwsalem gymryd rhan yn yr etholiadau hynny. Felly, mae Cyngor Deddfwriaethol Palesteina wedi cael ei ddiddymu ac nid yw’n edrych fel y bydd ateb i’r sefyllfa ddiddatrys wleidyddol yn fuan.

Dywedodd Dr Abdullah mai dim ond trwy borthladdoedd a meysydd awyr a reolir gan Israel y gall y Banc Gorllewinol a Gaza fasnachu â gweddill y byd. Mae'r oedi yn llesteirio datblygiad busnesau allforio Palestinaidd.

Mae gwahaniaeth amlwg yn y dirwedd rhwng y Banc Gorllewinol ac Israel, yn greigiog a chras ar y Banc Gorllewinol, yn wyrdd a bras yn ardal Israel. Nid oeddem yno’n ddigon hir i ganfod faint o hyn y mae a wnelo â thopograffeg ac ansawdd y pridd, neu faterion eraill.

Yn ôl yn Israel, gwnaethom ymweld â Green 2000 i'r gogledd o Tel Aviv, arloeswr byd-eang mewn systemau dyfrhau, garddwriaeth gynaliadwy a hwsmonaeth anifeiliaid, a ddechreuodd ar eu gwaith yn rhanbarthau cras Negev, Afon Iorddonen ac Arava, ac sydd bellach yn cynghori ffermwyr o bob cwr o'r byd ar leihau eu hallyriadau carbon. Ymddengys nad yw’r atebion technegol a ddefnyddir yn Affrica ar gael i

entrepreneuriaid ar y Banc Gorllewinol nac yn Gaza – mae gwleidyddiaeth yn rhwystr.

Yn ôl yn Tel Aviv, roedd ein hymweliad olaf â Chanolfan Heddwch ac Arloesi Peres, sy'n dangos amrywiaeth enfawr o ddyfeisgarwch Israel, popeth o fatris cerbydau sy’n gwefru’n gyflym i atebion byd-eang i fwydo'r byd yn gynaliadwy. Pa rôl all Canolfan Peres ei chwarae wrth arwain y datblygiad sydd ei angen i hyrwyddo heddwch a chydlyniad yn y rhanbarth? Gyda Brexit wedi parlysu'r Deyrnas Unedig a’r Unol Daleithiau yng ngafael rhyfeloedd masnach Donald Trump, mae'n annhebygol mai grymoedd allanol fydd yn pennu’r llwybr at heddwch. Er gwaethaf cyflawniadau trawiadol iawn, mae ffyniant hirdymor Israel yn gysylltiedig â mynd ar drywydd heddwch a chymodi ar draws y Dwyrain Canol.

Jenny Rathbone Mai 2019.